

Adroddiad Arolygu Ysbyty (Dirybudd)

Ward A7: Gastroenteroleg, Ysbyty
Athrofaol Cymru, Bwrdd Iechyd
Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Dyddiad yr arolygiad: 12 ac 13 Mehefin 2023

Dyddiad cyhoeddi: 13 Medi 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-83504-679-1

© Hawlfraint y Goron 2023

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	12
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	17
4.	Y camau nesaf	20
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	21
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	22
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	25

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd yn Ysbyty Athrofaol Cymru, Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro ar 12 ac 13 Mehefin 2023.

Adolygwyd y wardiau ysbyty canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ward A7 - cyfanswm o 31 o welyau, 13 ar adain y De a 18 ar adain y Gogledd, sy'n darparu triniaeth ar gyfer materion gastroenteroleg.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn i ni ar weithio i'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 14 o holiaduron gan gleifion neu eu gofalwyr. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Arolygydd Gofal Iechyd AGIC, dau adolygydd cymheiriaid clinigol ac un adolygydd profiad y claf. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl canfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#)

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Rhoddodd y cleifion adborth cadarnhaol iawn ar y gofal a'r driniaeth roeddent wedi'u cael.

Gwelsom fod y staff yn trin cleifion â pharch a charedigrwydd, a'u bod wedi gwneud ymdrech ar y cyfan i ddiogelu eu preifatrwydd a'u hurddas wrth ddarparu gofal.

Yn ôl yr hyn a welwyd, roedd y cleifion yn cael gofal da a gwelsom fod y staff yn ymateb yn brydlon i geisiadau'r cleifion am gymorth.

Er i ni weld gwybodaeth yn cael ei harddangos ar yr hysbysfyrddau, nid oedd hyn yn cynnwys gwybodaeth hybu iechyd nac yn cyfeirio at wasanaethau penodol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu gwybodaeth hybu iechyd ar ddwy ochr y ward.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom lawer o enghreifftiau o'r staff yn trin y cleifion â pharch a charedigrwydd
- Dywedwyd wrthym am fenter Katie's Wish i helpu cleifion â nam gwybyddol
- Gwelsom y staff yn hyrwyddo annibyniaeth y cleifion tra roeddent yn yr ysbyty.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod wardiau'r ysbyty'n darparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion.

Gwelsom fod trefniadau da ar waith i atal cleifion rhag datblygu briwiau pwyso ac i atal cleifion rhag cwmpo. Hefyd, gwelsom fod trefniadau da ar waith i ddiwallu anghenion maeth a hydradu arbenigol y cleifion.

Gwelsom dystiolaeth o atgyfeiriadau iechyd meddwl a chapasiti amserol a chadarn.

Gwelsom fod angen i'r ward wella'r broses o gynllunio i ryddhau cleifion i gynnwys cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol er mwyn hwyluso'r gwaith o ryddhau cleifion yn ddiogel a'u trosglwyddo i feysydd darpariaeth gofal eraill.

Achosion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Yn ystod ein harolygiad o'r storfa feddyginiaeth, gwelsom fod clo'r prif ddrws yn ddiffygiol a bod angen i'r staff orfodi'r clo â llaw. Ar yr achlysuron lle nad oedd y staff wedi gwneud hyn, nid oedd y drws wedi'i gloi. Yn ogystal, wrth gynnal hapwriad o'r cyffuriau yn y storfa, gwelsom fod dau flwch o feddyginiaeth yr oedd y dyddiadau arnynt wedi mynd heibio.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r bwrdd iechyd wella'r gwaith cynllunio i ryddhau cleifion yn ddiogel a'r broses atgyfeirio a chynyddu mynychder cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol.
- Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r broses o storio hylif mewnwythiennol yn y storfa gyffuriau.
- Rhaid i'r bwrdd iechyd lanhau'r ward yn drylwyr er mwyn cael gwared ar lwch ar arwynebau.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom fod trefniadau da ar waith i atal cleifion rhag datblygu briwiau pwyso ac i'w hatal rhag cwmpo
- Gwelsom brosesau rheoli meddyginiaethau da
- Gwelsom brosesau cadw cofnodion cynhwysfawr.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod strwythur rheoli addas ar waith gyda llinellau adrodd ac atebolrwydd clir.

Disgrifiodd yr uwch-aelodau o staff system archwilio i fonitro ansawdd a diogelwch y gwasanaethau a ddarperir ar y wardiau. Gwelsom fod y trefniadau ansawdd a diogelwch ar y wardiau yn briodol.

Roedd gan y bwrdd iechyd raglen hyfforddiant gorfodol gynhwysfawr. Fodd bynnag, roedd angen gwella cydymffurfiaeth.

Gwelsom fod y mwyafrif o'r staff oedd ar gael wedi cael arfarniad diweddar.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant gorfodol
- Rhaid i'r bwrdd iechyd ddangos y groes ddiogelwch neu wybodaeth gyfatebol er mwyn i gleifion ac ymwelwyr eu gweld.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom fod strwythur rheoli da ar waith gyda llinellau adrodd ac atebolrwydd clir
- Gwelsom fod y rhaglen Gofal Diogel yn adnodd dibynadwy i sicrhau bod lefelau staffio diogel ar y ward
- Gwelsom fod amrywiaeth o archwiliadau clinigol yn cael eu cwblhau'n rheolaidd.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddefnyddio holiaduron papur ac ar-lein i gasglu barn ac adborth gan gleifion a gofalwyr. Cwblhawyd cyfanswm o 14 o holiaduron. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Mae'r staff a'r sylw meddygol i'r dim.”

“Cefais ofal ardderchog gan y nyrsys a'r cynorthwywyr. Roeddent yn dda iawn ac yn gefnogol”

“Pan oeddwn yn ddifrifol wael ar y ward, cefais driniaeth brydlon bob amser a rhoddwyd tawelwch meddwl a chysur i mi.”

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu iechyd

Gwelsom fod gwybodaeth ddigonol yn cael ei harddangos am gyflyrau iechyd penodol fel dibyniaeth ar alcohol. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw wybodaeth hybu iechyd am roi'r gorau i smygu, maeth na sgrinio am ganser i'w gweld ar y naill ward na'r llall.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff gwybodaeth a chynghor hybu iechyd am amrywiaeth o gyflyrau iechyd ei harddangos ar y ward. Yn ogystal, dylid cynnwys gwybodaeth gyfeirio ar gyfer gwasanaethau fel rhoi'r gorau i smygu er mwyn i gleifion allu cael gfael ar y gwasanaethau hyn.

Dywedwyd wrthym nad oedd smygu yn cael ei ganiatáu unrhyw le yn yr ysbyty. Dywedwyd wrthym hefyd fod cleifion yn cael eu cyfeirio at wasanaeth rhoi'r gorau i smygu'r bwrdd iechyd lle gallent gael gfael ar gyngor a chymorth i'w helpu i stopio smygu.

Gofal urddasol a pharchus

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom lawer o enghreifftiau o'r staff yn trin y cleifion â pharch a charedigrwydd ac yn gwneud ymdrechion i gynnal eu hurddas.

Lle roedd cleifion yn cael eu lletya mewn baeau gyda sawl gwely, gwelsom lenni urddas yn cael eu tynnu. Gwelsom hefyd fod drysau i doiledau yn cael eu cau pan oedd gofal personol yn cael ei roi.

Yn ôl yr hyn a welwyd, roedd y cleifion yn cael gofal da ac wedi'u gwisgo'n addas, naill ai yn eu dillad eu hunain neu mewn gynau ysbyty. Gwelsom dystiolaeth fod poen y cleifion yn cael ei mesur, bod camau yn cael eu cymryd mewn ymateb iddi a'i bod yn cael ei gwerthuso'n rheolaidd gan ddefnyddio adnodd asesu poen addas.

Gwelsom fod ystafell perthnasau ar gael i'r cleifion ei defnyddio, lle gallent fynd â theulu a ffrindiau i eistedd a chael trafodaethau yn breifat. Gwelsom fod teulu a ffrindiau yn cael eu gwahodd i'r ward i helpu'r cleifion yn ystod amser bwyd.

Gwelsom amrywiaeth o ddewisiadau prydau yn cael eu darparu i gleifion. Roedd y prydau yn edrych yn flasus.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Roedd y cleifion a welsom yn cael gofal da yn ôl pob golwg. Gwelsom y staff yn annog y cleifion i symud a chyflawni eu gofal personol eu hunain a oedd yn hyrwyddo annibyniaeth.

Dywedwyd wrthym am fenter Katie's Wish a gyflwynwyd i hyrwyddo gofal i gleifion â nam gwybyddol. Dywedodd y staff wrthym fod y fenter hon wedi cael ei mabwysiadu ar sawl ward yn yr ysbyty.

Amserol

Gofal amserol

Gwelsom fod y gofal a'r triniaethau ar y ward yn cael eu cwblhau mewn ffordd amserol a phwyllog. Roedd y ward yn amgylchedd pwyllog ond prysur gyda'r staff yn cyflawni tasgau a thriniaethau mewn ffordd strwythuredig a threfnus.

Mynegodd y cleifion fod oedi yn ystod y broses dderbyn. Fodd bynnag, gwnaethant nodi bod y gofal a gawsant yn ystod y broses aros yn dda iawn.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Gwelsom arwyddion i helpu'r ymwelwyr i ddod o hyd i'r wardiau ac i wardiau ac adrannau eraill yn yr ysbyty. Gwelsom fod y rhain yn hawdd i'w dilyn ar y cyfan.

Gwelsom fod gwasanaethau cyfieithu ar gael, a bod gwasanaeth iaith arwyddion ar gael i'r cleifion os oedd ei angen. Gwelsom fod dolen sain ar gael ar y ward a bod gwybodaeth ar gael mewn amrywiaeth o fformatau, gan gynnwys fersiynau print mawr a fersiynau hawdd eu darllen.

Hawliau a Chydraddoldeb

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom y staff yn rhoi gofal i'r cleifion mewn ffordd a oedd yn cydnabod eu hanghenion a'u hawliau unigol. Gwelsom bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth cyfredol.

Er bod cyfyngiadau ar waith, dywedwyd wrthym fod ffrindiau a pherthnasau yn gallu ymweld â'r cleifion. Gwelsom berthnasau yn ymweld â'r ward adeg prydau bwyd i helpu'r cleifion a oedd yn cael trafferth yn bwydo eu hunain. Darparodd yr uwch-aelodau o'r staff ffigurau cydymffurfio i ni a oedd yn dangos bod y rhan fwyaf o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth fel rhan o raglen hyfforddiant gorfodol y bwrdd iechyd.

Gwelsom fod gwasanaeth caplan aml-ffydd ar gael, a bod caplan yn ymweld â'r ward yn rheolaidd. Dywedwyd wrthym fod ystafell aml-ffydd ar y trydydd llawr.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Gwelsom fod y ward yn hygyrch i'r cleifion, y staff a'r ymwelwyr. Roedd mynediad gwastad i'r ysbyty gyda lifftiau i gyrraedd pob ward a oedd wedi'u lleoli dros sawl lefel.

Nid oedd llawer o le yn ardaloedd y wardiau at ddibenion storio, ac o ganlyniad, roedd cyfarpar ar hyd y coridorau a oedd yn golygu bod y lle a oedd ar gael i gadeiriau olwyn, stretsieri a throlïau yn brin.

Roedd y staff glanhau domestig yn bresennol ar y wardiau drwy gydol ein harolygiad. Gwelsom fod y wardiau yn lân ac yn daclus ar y cyfan. Fodd bynnag, gwnaethom sylwi fod llwch arwyneb yn bresennol o dan y gwelyau ac ar siliau ffenestri. Gwelsom fod angen adnewyddu ardaloedd y wardiau. Roedd y paent yn plicio mewn rhai mannau, roedd llwch amlwg mewn ardaloedd ac nid oedd llawer o le at ddibenion storio. Gwelwyd bod y staff yn gwneud y defnydd gorau o'r ardal a oedd ganddynt, ond nodwyd bod angen gwaith adnewyddu.

Dylai'r bwrdd iechyd lanhau'r ward a'r ardaloedd clinigol yn drylwyr wrth i drefniadau mwy hirdymor ar gyfer gwaith adnewyddu gael eu rhoi ar waith.

Roedd yr uwch-staff yn disgrifio trefniadau addas ar gyfer adrodd, cofnodi ac ymchwilio i ddigwyddiadau ac i ddarparu adborth i staff y ward.

Gwelsom dystiolaeth yn ystod ein hadolygiad o gofnodion fod y cleifion wedi cael eu hasesu am y risg o ddatblygu briwiau pwyso. Roedd cynlluniau gofal priodol ar waith yn unol â'r risg a nodwyd. Gwelsom dystiolaeth o gleifion yn cael eu hail-leoli'n aml lle bo angen. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod croen y cleifion yn cael ei fonitro'n barhaus, yn enwedig pan oedd y cleifion yn ddifrifol wael ac yn gallu symud llai.

Gwelsom dystiolaeth fod y cleifion wedi cael eu hasesu am y risg o gwmpo. Lle nodwyd bod risg y bydd cleifion yn cwmpo, gwelsom fod cynlluniau gofal priodol wedi cael eu rhoi ar waith.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Ar y cyfan, roedd y ward yn lân ac yn daclus. Fodd bynnag, gwelsom lwch amlwg ar rai arwynebau a chyfeirir at hynny uchod. Roedd y cyfarpar yn cael ei lanhau

rhwng pob claf. Gwelsom fod matresi a gwelyau yn cael eu glanhau ar ôl i gleifion eu defnyddio. Gwelsom fod staff glanhau i'w gweld ar y ddwy ward yn ystod yr arolygiad. Gwelwyd bod ardal y wardiau wedi dyddio a bod angen ei hadnewyddu. Gwelsom fod modd glanhau'r rhan fwyaf o'r dodrefn yn effeithiol.

Diogelu plant ac oedolion

Disgrifiodd uwch-aelodau o'r staff drefniadau addas ar gyfer ymateb i bryderon diogelu. Gwelsom fod polisi a gweithdrefnau ysgrifenedig cyfredol ar waith. Roedd y rhain yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Cadarnhaodd yr uwch-aelodau o staff y gallai'r staff gysylltu ag arweinydd diogelu'r bwrdd iechyd i gael cyngor ar faterion diogelu.

Yn ystod ein harolygiad, bu'n rhaid i'r staff gwblhau atgyfeiriad o dan y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid. Cafodd y broses ei dogfennu'n dda iawn, a'i chynnal mewn modd amserol a chadarn. Roedd hwn yn dangos ymarfer da o ran y prosesau mewn perthynas â chapasiti iechyd meddwl ac atgyfeirio ar y ward.

Roedd hyfforddiant diogelu yn rhan o raglen hyfforddiant gorfodol y bwrdd iechyd. Dangosodd data a ddarparwyd gan uwch-aelodau o'r staff fod angen gwella cydymffurfiaeth â hyfforddiant. Ymdrinnir â hyn o dan hyfforddiant gorfodol.

Rheoli gwaed

Nodwyd gennym fod trefniadau caeth ar waith i sicrhau bod cynhyrchion gwaed yn cael eu rhoi'n ddiogel ar y ddwy ward. Roedd y staff hefyd yn ymwybodol o'r broses gywir o roi gwybod am ddigwyddiadau niweidiol mewn cysylltiad â chynhyrchion gwaed.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn hyderus o ran y broses o roi a monitro cynhyrchion gwaed, gan gynnwys gwiriadau cleifion. Dywedwyd wrthym fod cofnod o'r holl staff sy'n gymwys i roi cynhyrchion gwaed yn cael ei gadw gan reolwyr y wardiau.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Gwelsom fod amrywiaeth o gyfarpar ar gael i ddiwallu'r anghenion a aseswyd ar gyfer y cleifion, megis matresi lleddfu pwysau, cymhorthion symudedd, comodau a pheiriannau monitro arwyddion hanfodol i fywyd. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn cytuno fod y cyfarpar cywir ar gael iddynt helpu gyda gofal cleifion. Fodd bynnag, er i ni weld bod cyfarpar yn cael ei lanhau rhwng pob claf, nid oedd unrhyw system ar waith i ddangos pa gyfarpar oedd yn lân.

Rhaid i'r bwrdd iechyd roi proses ar waith lle gall y staff nodi pa gyfarpar sydd wedi cael ei lanhau, fel y system labeli gwyrdd.

Gwelsom fod labeli ar gyfarpar i ddangos pryd roedd angen eu gwasanaethu a gwelwyd bod y rhain yn gyfredol.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r weithdrefn gywir i'w dilyn er mwyn rhoi gwybod am gyfarpar diffygiol. Gwelsom aelodau o'r staff yn glanhau'r cyfarpar a rennir ar ôl ei ddefnyddio er mwyn atal achosion o groes-heintio.

Rheoli Meddyginiaethau

Gwelsom fod meddyginiaethau yn cael eu rhagnodi, eu dogfennu a'u rhoi yn gywir yn unol â'r polisi rheoli meddyginiaethau. Roedd cyffuriau yn cael eu storio'n briodol mewn cypyrddau wedi'u cloi mewn ystafell wedi'i chloi. Fodd bynnag, yn ystod ein harolygiad, gwelsom fod y clo ar ddrws yr ystafell gyffuriau wedi torri. Cafodd y mater ei uwchgyfeirio i reolwyr y wardiau a gwnaed cais i'r adran ystadau drefnu i drwsio'r clo neu osod clo newydd. Rhoddodd rheolwr y ward wybod i'r staff y byddai'n rhaid cloi'r drws â llaw tan i'r broblem gael ei datrys. Cysylltodd rheolwr y ward â'r tîm ystadau i gael clo newydd a gwelwyd aelodau o'r tîm hwnnw ar y ward yn ymgymryd â'r gwaith hwn yn ystod ein hymweliad.

Gwelsom fod yr hylifau mewnwythiennol yn yr ystafell gyffuriau yn cael eu storio mewn droriau plastig solid. Nid oedd hyn yn unol â'r canllawiau atal a rheoli heintiau cywir.

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r ffordd y caiff hylifau mewnwythiennol eu storio er mwyn sicrhau ei fod yn gweithredu'n unol â chanllawiau atal a rheoli heintiau diogel.

Nodwyd bod y polisi rheoli meddyginiaethau yn ddigon cadarn. Roedd tymereddau'r oergelloedd storio meddyginiaeth yn cael eu gwirio a'u cofnodi'n briodol bob dydd. Fodd bynnag, nid oedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn sicr ynghylch pa gamau gweithredu i'w cymryd pe byddai tymereddau'r oergelloedd y tu allan i'r paramedrau a argymhellwyd. Gwnaethom nodi hefyd fod y clo ar yr oergell wedi torri. Roedd gan yr ystafell ddrws wedi'i gloi ac felly cawsom sicrwydd na allai unrhyw un heb awdurdod gael mynediad. Fodd bynnag, gwnaethom argymell y dylid trwsio'r clo neu osod clo newydd.

Rydym yn argymell y dylai'r bwrdd iechyd ddosbarthu gwybodaeth am ba gamau gweithredu i'w cymryd os nodir bod tymereddau'r oergelloedd y tu allan i'r paramedrau a argymhellwyd. Rydym hefyd yn argymell y dylid trwsio'r clo ar yr oergell neu gael un newydd.

Roedd y siartiau rhoi meddyginiaeth yn cael eu cwblhau'n gywir ar y cyfan. Gwelsom fod manylion y cleifion yn cael eu dangos ar bob siart, ond nid oedd hyn yn gyson drwy'r siart bob amser.

Roedd gan y ward fferylllydd dynodedig ac roedd modd i'r staff gael gafael ar feddyginiaeth gan reolwr y safle y tu allan i oriau. Nododd y staff eu bod yn teimlo y gallent gael gafael ar feddyginiaethau a'u bod yn cael eu cefnogi gan staff y fferyllfa. Nid oedd ocsigen yn cael ei ragnodi ar y siart meddyginiaethau ond roedd hwn wedi'i ddogfennu yn y Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol. **Rydym yn argymhell y dylai'r ward sicrhau bod yr angen am ocsigen yn cael ei ragnodi ar y siart meddyginiaethau.**

Effeithiol

Gofal Effeithiol

Gwelsom dystiolaeth fod y gwasanaethau yn cael eu trefnu i sicrhau bod modd symud trwy lwybrau. Dywedwyd wrthym nad oedd cyfarfodydd y Tîm Amlddisgyblaethol yn cael eu cynnal fel mater o drefn, ond yn hytrach, eu bod yn cael eu cynnal ar sail achosion unigol. Esboniodd y staff eu bod yn dibynnu ar atgyfeiriadau ar lafar er mwyn cynllunio i ryddhau cleifion, ond ni welsom dystiolaeth i gefnogi hyn yn y nodiadau nyrsio. Oherwydd natur gymhleth yr arbenigedd a'r grŵp cleifion risg uchel, mae angen system atgyfeirio gadarn.

Rhaid i'r bwrdd iechyd roi system atgyfeirio gadarn ar waith i gynnwys cyfarfodydd cynllunio rheolaidd ar gyfer rhyddhau cleifion er mwyn hwyluso'r broses o drosglwyddo'n ddiogel.

Gwelsom gyfathrebu da rhwng y staff a oedd yn cynnwys y broses trosglwyddo rhwng shifftiau ac enghreifftiau o ddosbarthu gwybodaeth i bob rhan o'r tîm.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o sut i gael gafael ar bolisiau a gweithdrefnau clinigol yr ysbyty er mwyn hwyluso eu hymarfer.

Gwelsom fod byrddau Cipolwg ar Statws Cleifion i'w gweld yn glir, a oedd yn cynnwys blaenlythrennau a chyfenw'r cleifion, ynghyd â gwybodaeth ar ffurf byrfoddau am statws pob claf er mwyn helpu aelodau'r tîm amlddisgyblaethol i gyfathrebu â'i gilydd.

Maeth a hydradu

Roedd gwybodaeth mewn perthynas ag anghenion maeth y claf yn cael ei rhoi adeg trosglwyddo'r shifft a'i dogfennu yng nghofnodion y cleifion. Roedd croeso i berthnasau ymweld â'r ward adeg prydau bwyd er mwyn cynorthwyo'r cleifion yr

oedd angen help arnynt i fwyta ac yfed. Gwelwyd bod dŵr ar gael i'r cleifion a bod diodydd poeth yn cael eu gweini o gwmpas adeg prydau bwyd neu ar gais.

Oherwydd arbenigedd y ward ac aciwtedd y cleifion, gwelsom arwyddion wrth ochr gwelyau'r cleifion yn nodi eu gofynion deietegol.

Dywedwyd wrthym fod y ward yn rhan o'r llwybr arbenigol Maeth Cyflawn drwy'r Gwythiennau (TPN) ar gyfer Cymru a'i bod wedi cael cyllid ychwanegol i ddarparu'r gwasanaeth arbenigol hwn i gleifion gastroenteroleg.

Gwelsom fod adnodd sgrinio maeth yn cael ei ddefnyddio ochr yn ochr â'r system hambwrdd coch er mwyn nodi cleifion yr oedd angen cymorth arnynt. Roedd y staff ar y ward yn dda iawn wrth ddiwallu anghenion maethol arbenigol pob claf. Gwelsom fod adnodd Asesiad Maethol Cymru Gyfan yn cael ei roi ar waith a'i ddefnyddio'n gywir a'i fod wedi'i ddogfennu yn y nodiadau.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Nodwyd bod strwythur rheoli addas ar waith a chafodd llinellau adrodd ac atebolrwydd clir eu disgrifio a'u hamlygu. Cadarnhaodd yr uwch-aelodau o'r staff eu bod yn ymweld â'r ward yn rheolaidd a'u bod ar gael i roi cyngor a chymorth i reolwyr y wardiau a thimau'r wardiau.

Disgrifiodd yr uwch-aelodau o staff system ar gyfer archwilio a darparwyd enghreifftiau yn dangos y broses hon. Gwelsom fod amrywiaeth o archwiliadau wedi'u cynnal a oedd yn cynnwys hylendid dwylo, Atal a Rheoli Heintiau ac Archwiliad Clinigol y Nyrs Arwain.

Gwelsom fod trefniadau monitro ansawdd a diogelwch da ar y ward. Disgrifiwyd trefniadau addas ar gyfer rhannu gwybodaeth berthnasol a diweddariadau i bolisiau a gweithdrefnau gyda thimau ehangach y wardiau.

Yn ystod ein harolygiad, nodwyd bod rheolwyr y ward yn ymgysylltu'n gadarnhaol ac yn gydweithredol â phroses arolygu AGIC. Gwnaethant ddangos ymrwymiad i ddysgu o'r arolygiad a gwneud gwelliannau fel y bo'n briodol.

Y Gweithlu

Gweithlu Medrus a Galluog

Gwelsom feddygon, staff nyrsio, gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, staff cymorth gofal iechyd, staff gweinyddol, staff arlwy/gweini a staff domestig yn gweithio ar y ward.

Yn ystod ein harolygiad, roedd y lefelau staffio a'r cymysgedd sgiliau ar y ddwy ward i'w gweld yn briodol i ddiwallu'r anghenion a aseswyd ar gyfer y cleifion. Dywedwyd wrthym fod staff banc yn cael eu defnyddio i gyflenwi unrhyw ddiffygion staffio nad oedd modd i aelodau o dîm y ward eu cyflenwi.

Gwelsom fod y ward wedi neilltuo gwelyau gwarchodedig ar gyfer cleifion gastroberfeddol a bod y gwelyau hyn yn cael eu gwarchod cymaint â phosibl.

Esboniodd rheolwr y ward fod y ward wedi cael cyllid ychwanegol ar gyfer staff o dan y gwasanaeth Maeth Cyflawn drwy'r Gwythiennau (TPN)¹. Mae angen staff sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig ar y ward i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn ddiogel.

Dywedodd rheolwr y ward wrthym ei fod yn defnyddio'r rhaglen ddigidol Safe Care i sicrhau bod y nifer cywir o staff yn bresennol ar gyfer y lefel aciwtedd ar y ward. Roedd y rhaglen hon yn cael ei chwblhau ddwywaith y dydd wrth newid shiftt a gallai hefyd gael ei diweddarau unrhyw bryd yn ystod y shiftt os oedd newid mewn staff neu newid yn sefyllfa'r claf.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn cytuno fod nifer y staff a'r cymysgedd o sgiliau yn briodol ar gyfer aciwtedd y ward. Gwnaethant esbonio pan fydd aciwtedd yn uchel, bod uwch-aelodau o'r staff a rheolwyr yn helpu gyda'r cleifion aciwtedd uchel.

Dywedwyd wrthym fod staff asiantaeth a banc yn cael eu defnyddio o gronfa o staff rheolaidd sy'n gyfarwydd â'r ward a'i phrosesau.

Gwnaethom ofyn am fanylion hyfforddiant staff gorfodol. Roedd cydymffurfiaeth yn isel ar gyfer pob pwnc.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant gorfodol.

Disgrifiodd y staff y broses ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau, a oedd yn cynnwys cwblhau adroddiad digwyddiadau Datix.

Gwelsom fod Adolygiadau Arfarnu a Datblygu Perfformiad staff yn cael eu cwblhau bob blwyddyn, a gwelwyd bod y cyfraddau cydymffurfio yn dda. Dywedodd y staff wrthym yn ystod yr Adolygiad Arfarnu a Datblygu Perfformiad eu bod yn gallu datblygu cynllun gweithredu ar gyfer y flwyddyn i ddod a gofyn i fynychu cyrsiau hyfforddiant. Roedd y manylion yn cael eu dogfennu a'u cofnodi yn ffeiliau'r staff unigol.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

¹ Maeth Cyflawn drwy'r Gwythiennau (TPN) yw lle mai dim ond maeth drwy'r gwythiennau y bydd y claf yn ei gael. Bydd hyn yn digwydd pan fydd gweithrediad gastroberfeddol y claf yn ddiffygiol a lle ceir gwrtharwyddion sy'n atal maethu drwy diwb.

Gwelsom fod rheolwyr i'w gweld ar y ddwy ward ac roeddent i weld yn gyfeillgar ac yn broffesiynol. Gwelsom fod y rheolwyr yn cymryd rhan wrth ddarparu gofal ac yn helpu gyda rowndiau'r meddygon.

Roedd y ward yn dilyn proses gwyno Gweithio i Wella. Dywedodd y rheolwyr wrthym fod cwynion yn cael eu dogfennu yn nodiadau'r cleifion ac ar system Datix. Roedd y cwynion yn cael eu nodi mewn cronfa ddata ac roedd rheolwyr y wardiau a'r tîm gweithio i wella yn ymchwilio iddynt. Roedd rheolwyr y wardiau'n rhannu gwersi a ddysgwyd trwy sesiynau briffio ar ddiogelwch, negeseuon e-bost a thrwy grŵp WhatsApp y ward.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Yn ystod yr arolygiad, gwelsom feddyginiaeth yr oedd y dyddiad arni wedi mynd heibio yn yr ystafell paratoi cyffuriau.	Roedd hyn yn peri risg y byddai meddyginiaeth a oedd wedi darfod yn cael ei rhoi i glaf ac y gallai achosi niwed o bosibl.	Cafodd y mater hwn ei uwchgyfeirio ar y pryd i reolwr y ward.	Rhoddwyd cyfarwyddyd i'r staff nyrsio a fferylliaeth symud a chael gwared ar yr holl feddyginiaeth yr oedd y dyddiad arni wedi mynd heibio ac i gynnal gwiriad stoc llawn o'r holl feddyginiaethau.
Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod cyfarpar COSHH yn y golwg yn ardal yr olchfa y gall cleifion ac ymwelwyr fynd iddi'n hawdd.	Roedd hyn yn peri risg bosibl o amlygiad i sylweddau niweidiol wrth iddynt ddod i gysylltiad â'r croen neu drwy eu llyncu.	Cafodd y mater hwn ei uwchgyfeirio i reolwr y ward ar unwaith.	Symudodd y staff y cyfarpar COSHH ar unwaith a rhoddwyd cyfarwyddyd i bob aelod o'r staff wneud yn siŵr bod canllawiau storio COSHH yn cael eu dilyn.

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Ysbyty Athrofaol Cymru

Dyddiad yr arolygiad: 3 a 4 Mehefin 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Yn ystod ein harolygiad o'r storfa feddyginiaeth, gwelsom fod clo'r prif ddrws yn ddiffygiol a bod angen i'r staff orfodi'r clo â llaw. Ar yr achlysuron lle nad oedd y staff wedi gwneud hyn, nid oedd y drws wedi'i gloi. Yn ogystal, wrth gynnal hapwriad o'r cyffuriau yn y storfa, gwelsom fod dau flwch o feddyginiaeth yr oedd y dyddiadau arnynt wedi mynd heibio.	Rhaid i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC yn nodi sut y bydd yn sicrhau y caiff meddyginiaethau eu storio yn unol â'r rheoliadau, canllawiau, safonau a pholisïau cenedlaethol a lleol, a bod proses gadarn ar waith i wirio dyddiadau defnyddio meddyginiaethau.	1. Trwsio'r clo ar brif ddrws y storfa meddyginiaethau. 2. Cynnwys archwilio dyddiadau defnyddio meddyginiaethau yn y broses ddyddiol o wirio Cyffuriau a Reolir / tymereddau oergelloedd a rhestr wirio wythnosol yr uwch-reolwyr. Cynnal archwiliadau misol o gydymffurfiaeth er mwyn monitro.	Ystadau Uwch-nyrsys	Wedi'i gwblhau Wedi'i gwblhau

3. Trefnu i dechnegydd y fferyllfa sy'n cefnogi'r ward i gynnal gwiriadau hefyd a chynnal gwiriad stoc llawn er mwyn cael gwared ar unrhyw feddyginiaethau y mae'r dyddiad arnynt wedi mynd heibio.	Nyrs Arwain	Wedi'i gwblhau
4. Cyfathrebu â'r staff am bwysigrwydd gofynion rheoli meddyginiaethau. Cylchlythyr Llywodraethu'r Bwrdd Clinigol Meddygaeth, cyfarfod adborth staff AGIC. Sesiynau briffio ar ddiogelwch / cyfarfodydd trosglwyddo.	Nyrs Arwain	Wedi'i gwblhau Wedi'i gwblhau
5. Bydd gwaith Rheoli Meddyginiaethau yn cael ei gynnwys ar yr archwiliadau wedi'u trefnu / Tendable.	Nyrs Arwain/ Uwch-nyrs ar gyfer Safonau Proffesiynol	Mehefin 2023

Cyfarfod wedi'i drefnu
â'r uwch-nyrs ar gyfer
safonau proffesiynol
21/6/23

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Ysbyty Athrofaol Cymru - Ward A7: Gastroenteroleg

Dyddiad yr arolygiad: 12 ac 13 Mehefin 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom nodi nad oedd unrhyw wybodaeth hybu iechyd yn cael ei harddangos i gleifion ac ymwelwyr.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff gwybodaeth a chynghor hybu iechyd am amrywiaeth o gyflyrau iechyd ei harddangos ar y ward. Yn ogystal, dylid cynnwys gwybodaeth gyfeirio ar gyfer gwasanaethau fel rhoi'r gorau i smygu er mwyn i gleifion allu cael gafael ar y gwasanaethau hyn.	Bydd y brif nyrs yn cysylltu â'r timau nyrsio arbenigol i gael gafael ar amrywiaeth o wybodaeth hybu iechyd a fydd yn cynnwys gwybodaeth gyfeirio. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei harddangos ar fyrddau arddangos ac yn cael ei monitro bob mis drwy Tendable.	Prif Nyrs/ Uwch-nyrs	Medi 2023
Yn ystod ein harolygiad, gwelsom fod llwch arwyneb yn bresennol ar siliau a fframiau gwelyau. Gwelsom fod paent yn plicio ar y waliau.	Dylai'r bwrdd iechyd lanhau'r ward a'r ardaloedd clinigol yn drylwyr wrth i drefniadau mwy hirdymor ar gyfer gwaith adnewyddu gael eu rhoi ar waith.	Cysylltu â'r tîm Cadw Tŷ i lanhau'r ward yn drylwyr Bydd archwiliadau cadw tŷ yn cael eu monitro drwy	Prif Nyrs	Wedi'i gwblhau

		archwiliadau glanhau wythnosol y tîm amlddisgyblaethol. Bydd y Brif Nyrs/Uwch-nyrs yn parhau i gynnal archwiliadau Safonau Craidd ac archwiliadau Atal a Rheoli heintiau craidd, a fydd yn cael eu cofnodi a'u monitro bob mis fel rhan o broses archwilio Tendable. Caiff yr achosion o baent yn plicio eu huwchgyfeirio i'r adran Ystadau i'w trwsio. Cais i'r adran ystadau ymweld â'r ward a cherdded o gwmpas i asesu unrhyw atgyweiriadau angenrheidiol a chytuno ar amserlenni ar gyfer eu cwblhau	Prif Nyrs/ Uwch-nyrs Prif Nyrs Prif Nyrs / Nyrs Arwain Prif Nyrs / Nyrs Arwain	Wedi'i gwblhau - parhaus Wedi'i gwblhau - Parhaus Wedi'i gwblhau Awst 2023
Yn ystod ein harolygiad, nodwyd gennym nad oedd	Rhaid i'r bwrdd iechyd roi proses ar waith lle gall y staff nodi pa	Rhoi system labeli gwyrdd ('RWY'N LÂN') ar waith ar y ward. Bydd y system hon yn cael ei rhannu â'r staff drwy sesiynau	Prif Nyrs	Wedi'i gwblhau - Parhaus

modd nodi pa gyfarpar oedd wedi cael ei lanhau.	gyfarpar sydd wedi cael ei lanhau, fel y system labeli gwyrdd.	briffio ar ddiogelwch ac yn cael ei monitro drwy'r archwiliadau glanhau misol.		
Yn ystod ein harolygiad, gwelsom fod hylifau mewnwythiennol yn cael eu storio mewn cynwysyddion plastig solid a oedd yn galluogi llwch a baw i gasglu yn y gwaelod.	Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r ffordd y caiff hylifau mewnwythiennol eu storio er mwyn sicrhau ei fod yn gweithredu'n unol â chanllawiau atal a rheoli heintiau diogel.	Bydd adolygiad o'r trefniadau ar gyfer storio hylif mewnwythiennol yn cael ei gynnal â'r tîm atal a rheoli heintiau a chaiff unrhyw argymhellion eu rhoi ar waith	Nyrs Arwain	Medi 2023
Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom nodi nad oedd y staff yn gallu esbonio'r broses uwchgyfeirio pe byddai tymereddau'r oergelloedd y tu allan i'r paramedrau angenrheidiol. Gwnaethom nodi hefyd nad oedd modd cloi'r oergell storio cyffuriau.	Rydym yn argymhell y dylai'r bwrdd iechyd ddosbarthu gwybodaeth am ba gamau gweithredu i'w cymryd os nodir bod tymereddau'r oergelloedd y tu allan i'r paramedrau a argymhellwyd. Rydym hefyd yn argymhell y dylid trwsio'r clo ar yr oergell neu gael un newydd.	Caiff y broses uwchgyfeirio ar gyfer tymheredd yr oergell ei rhannu â'r staff drwy sesiynau briffio ar ddiogelwch. Caiff y broses uwchgyfeirio ar gyfer tymheredd yr oergell ei harddangos ar fyrddau cyfathrebu â staff Caiff clo'r storfa meddyginiaethau ei drwsio.	Prif Nyrs Prif Nyrs Prif Nyrs	Wedi'i gwblhau Wedi'i gwblhau Wedi'i gwblhau - 15

		Rhoddir gwybod i'r adran ystadau am y clo sydd wedi torri ar yr oergell. Os na ellir trwsio clo'r oergell, caiff oergell newydd y mae modd ei chloi ei harchebu.	Prif Nyrs	Gorffennaf 2023 Medi 2023
Yn ystod ein hadolygiad o gofnodion cleifion, gwnaethom nodi mai ar lafar yr oedd y rhan fwyaf o'r atgyfeiriadau i aelodau'r tîm amlddisgyblaethol yn cael eu gwneud ac mai anaml yr oedd cyfarfodydd cynllunio i ryddhau cleifion yn cael eu cynnal.	Rhaid i'r bwrdd iechyd roi system atgyfeirio gadarn ar waith i gynnwys cyfarfodydd cynllunio rheolaidd ar gyfer rhyddhau cleifion er mwyn hwyluso'r broses o drosglwyddo'n ddiogel.	Bydd taflen cynllunio cyfathrebu gadarn yn cael ei rhoi ar waith ar y ward ar gyfer rhyddhau cleifion, a chaiff ei hadolygu ymhen chwe mis. Bydd y daflen yn cynnwys trafodaethau rownd bwrdd dyddiol y tîm amlddisgyblaethol ar gyfer rhyddhau cleifion. Fel rhan o'r daflen cynllunio cyfathrebu ar gyfer rhyddhau cleifion, caiff gwybodaeth y Llwybr Rhyddhau i Adfer yna Asesu (D2RA) ei chynnwys er mwyn gwella'r broses o gynllunio cyfathrebu ar gyfer rhyddhau cleifion mwy cymhleth.	Nyrs Arwain, Cyfarwyddwr Nyrsio	Wedi'i gwblhau - parhaus

Yn ystod ein hadolygiad o hyfforddiant staff, gwelsom fod cyfraddau cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol yn isel i'r holl staff.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant gorfodol.	Bydd cyfraddau cwblhau hyfforddiant gorfodol ac arfarniadau staff yn cael eu monitro bob mis drwy gyfarfodydd yr uwch dîm rheoli.	Nyrs Arwain	Hydref 2023
		Bydd y staff yn cael eu cefnogi drwy neilltuo amser iddynt gwblhau hyfforddiant gorfodol.	Prif Nyrs/ Uwch-nyrs/	Hydref 2023
		Bydd y nyrs datblygu ymarfer yn helpu staff sy'n methu defnyddio'r system Cofnodion Staff Electronig i gyflawni eu gofynion hyfforddiant	Nyrs Datblygu Ymarfer	Hydref 2023

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Jane Murphy

Teitl swydd: Cyfarwyddwr Nyrsio ar gyfer y Bwrdd Clinigol Meddygaeth

Dyddiad: 23/08/2023